*Cyngor Sir Penfro*
*Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2017–2033*
*ARCHWILIAD*
**Pembrokeshire County Council**
**Revised Local Development Plan 2017–2033**
**EXAMINATION**

*Arolygwyr / Inspectors:*
**Ian Stevens BA (Anrh) MCD MRTPI**
**Paul Selby BEng (Anrh) MSc MRTPI**

*Swyddog Rhaglen / Programme Officer:*
**Deborah Williamson**

***ff*/t: 01437 775545 e: programmeofficer@pembrokeshire.gov.uk**

Harriet Lavender
Pennaeth Cynllunio
Cyngor Sir Penfro/Pembrokeshire County Council
Neuadd y Sir/County Hall
Hwlffordd/Haverfordwest
Sir Benfro/Pembrokeshire
SA61 1TP

8 Mai 2026

Annwyl Ms Lavender

**Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro 2 - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faethynnau**

Diolch i chi am eich ymateb i'n llythyr cychwynnol, a dderbyniom ar 25 Mawrth 2026. Ar ôl adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd, rydym wedi paratoi nodyn sy'n ymdrin ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faethynnau. Mae'r nodyn, sydd wedi'i atodi i'r llythyr hwn, yn nodi ein pryderon ac yn cynnwys manylion y camau nesaf ar gyfer yr archwiliad hwn.

Rydym wedi anfon copi o'r llythyr a'r nodyn hwn at Lywodraeth Cymru ac at Cyfoeth Naturiol Cymru.

Byddwn yn cysylltu â'r Swyddog Rhaglen i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

Ian Stevens a Paul Selby
Arolygwyr

Cc Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru

## Nodyn gan yr Arolygwyr: Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro 2 – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy’n sensitif i faethynnau

1. Nodwyd effeithiau posibl Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Penfro 2 ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) morol ac afonydd yn y Sir fel mater posibl yn ymwneud â chadernid, mewn cyfarfod cynghori cyn cyflwyno a gynhaliwyd rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) ar 3 Medi 2025, ac yn ein llythyr cychwynnol dyddiedig 2 Rhagfyr 2025.

2. Rydym bellach wedi cael y cyfle i adolygu eich ymateb i’n llythyr cychwynnol, a dderbyniom ar 25 Mawrth 2026. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd hyd yma, rydym yn parhau i fod â phryderon sylweddol ynghylch sut gallai’r mater hwn effeithio ar gadernid CDLl2. Nodir y pryderon hyn yn y nodyn hwn, sy’n canolbwyntio ar dri mater allweddol, ynghyd â manylion y camau nesaf.

***Cefndir***

3. I roi cyd-destun, mae crynodeb isod o’r data a dynnwyd gennym o’r wybodaeth bellach a gyflwynwyd gan y Cyngor ar 25 Mawrth 2026.

4. Felly, mae tua 70% o’r unedau tai a ddyrannwyd yn dangos potensial i arwain at ollwng nitrogen a/neu ffosfforws ychwanegol i mewn i ACA sy’n sensitif i faethynnau. Mae Tablau 33 a 49 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) y Cyngor [ED09a] yn amcangyfrif ymhellach, wrth ystyried datblygiadau ar hap disgwyliedig yn ogystal â dyraniadau ac ymrwymiadau tai, llwythi o tua 280kg o ffosfforws ac 8,000kg o nitrogen mewn dalgylchoedd ACA sy’n sensitif i faethynnau, yn ystod cyfnod y Cynllun.

| Dyraniadau preswyl | Unedau | Canran | Cyfanswm ffosfforws (kg) | Cyfanswm nitrogen (kg) |
|---|---|---|---|---|
| **Unedau preswyl (pob safle’r CDLl)** | 2375 | 100.0 | - | - |
| **Effeithir gan P yn unig** | 56 | 2.4 | 36.84 | - |
| **Effeithir gan N yn unig** | 934 | 39.3 | - | 3277.43 |
| **Effeithir gan N a P** | 681 | 28.7 | 176.72 | 2605.52 |
| **Effeithir gan un o’r maethynnau neu’r ddau** | 1671 | 70.4 | 213.56 | 5882.95 |

**(Cyfanswm o 41 o ddyraniadau a effeithir gan faethynnau)**

| Ymrwymiadau preswyl | Unedau | Canran | Cyfanswm ffosfforws (kg) | Cyfanswm nitrogen (kg) |
|---|---|---|---|---|
| **Unedau preswyl (pob safle’r CDLl)** | 1131 | 100.0 | - | - |
| **Effeithir gan P yn unig** | 20 | 1.8 | 16.07 | - |
| **Effeithir gan N yn unig** | 114 | 10.1 | - | 449.48 |
| **Effeithir gan N a P** | 17 | 1.5 | 10.69 | 116.29 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effeithir gan un o'r maethynnau neu'r ddau** | 151 | 13.4 | 26.76 | 565.77 |
| **(Cyfanswm o 20 o ymrwymiadau a effeithir gan faethynnau)** | | | | |

*Ffynonellau: CDLl2 (diwygiwyd gan newidiadau canolbwyntiedig) [SD14] a thablau 30, 31, 42, 44 a 45 yr ARhC [ED09a]*

5. Fel enghraifft, mae'r ARhC yn nodi y byddai gwrthbwyso'r llwythi hyn yn cyfateb fel a ganlyn:

   - Ar gyfer nitrogen – 154 hectar o borfa llaeth, neu 515 hectar o borfa iseldir, i'w newid i goetir, ac
   - Ar gyfer ffosfforws – 828 hectar o borfa llaeth ar bridd sy'n draenio'n rhydd, neu 129 hectar o borfa llaeth ar bridd lle mae draeniad yn cael ei rwystro, i'w newid i goetir.

6. Nodir mesurau lliniaru posibl eraill yn yr ARhC, gan dynnu ar gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar 'ddewislen mesurau lliniaru'.

***Cyd-destun cyfreithiol a pholisi***

7. Tynnodd ein llythyr cychwynnol sylw at Ddatganiad Polisi Cynllunio Interim Llywodraeth Cymru (LlC) ar Ddatblygiad mewn Afonydd ACA. Mae hyn yn dangos y gellir dibynnu ar ddull cyfran deg lle gellir dangos bod camau gweithredu gan gyrff cyhoeddus ac asiantaethau statudol i leihau llwyth maethynnau yn nalgylchoedd ACA yn cael eu cymryd. Nodom sut mae hyn yn elfen gynhenid o Erthygl 6(2) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gymryd 'camau priodol' i osgoi dirywiad ACA.

8. Yn gysylltiedig â'r Datganiad Polisi Cynllunio Interim, mae dogfen 'Canllawiau cynllunio ymarferol i gefnogi datblygiad, yn enwedig darparu tai fforddiadwy, mewn dalgylchoedd afonydd ACA yr effeithir arnynt gan ffosfforws' gan DTA Ecology. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor ar sut gellir dibynnu ar 'ddull integredig' o adfer, rheoli a lliniaru rhwydweithiau afonydd ACA i sicrhau cydymffurfedd â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae paragraff 11.3.1 yn dweud mai "cam cyntaf... yw nodi a sicrhau mesurau adfer a rheoli". Mae hefyd yn rhoi sylwadau a chanllawiau ymarferol ar 'Ddyfarniad Nitrogen yr Iseldiroedd' (achosion C-293/17 a C-294/17), gan gynnwys:

   - Mae'r dull integredig o liniaru yn gofyn am gyd-ddibyniaeth rhwng cyflawni datblygiad a chyflawni mesurau adfer neu gamau i osgoi dirywiad; a
   - Dim ond pan fo'n ddigon sicr y bydd mesur [lliniaru] yn gwneud cyfraniad effeithiol at osgoi niwed i uniondeb y safle dan sylw…y gellir ystyried mesur o'r fath yn yr asesiad priodol.

9. Roedd Llythyr at Brif Swyddogion Cynllunio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 27 Mawrth 2026 yn cyflwyno:

- Nodyn eglurhad ynghylch cymhwyso'r profion cadernid i Gynlluniau Datblygu Lleol ('y nodyn eglurhad'); ac
- 'Adroddiad Cam 3' newydd gan DTA Ecology, sy'n cadarnhau bod canllawiau cynharach yn berthnasol i bob defnydd gan gynnwys pob ACA sy'n sensitif i faethynnau.

10. Er y cafodd y llythyr at Brif Swyddogion Cynllunio a'r dogfennau cysylltiedig eu cyhoeddi'n ffurfiol yn fuan wedi i'r ACLl gyflwyno ei ymateb i ni ar y materion hyn, nid yw'r wybodaeth newydd hon yn newid ein safbwynt yn sylfaenol o ran pryderon a godwyd yn flaenorol, ond yn hytrach yn eu hatgyfnerthu. Nid yw ymateb ffurfiol CNC ar eich ARhC, dyddiedig 24 Ebrill 2026, yn newid ein pryderon yn sylfaenol.

11. Mae paragraff 10 y nodyn eglurhad yn gwahaniaethu rhwng mesurau rheoli neu adfer 'sicr' sy'n gysylltiedig â cherrig milltir cyflawni a rhai sy'n 'ddyheadol'. Mae paragraff 11 yn cadarnhau bod elfen o ansicrwydd yn dderbyniol wrth ddeall gwelliannau yn y dyfodol, gan nodi bod angen lefel o ragofal ond ni ddylai fod yn ormodol o ystyried yr ymdrech i ddangos rhyngddibyniaeth rhwng polisïau a chynigion y Cynllun a mesurau parhaus o dan Erthygl 6(2). Mae paragraff 20 yn nodi bod rhaid i lefel y wybodaeth sy'n ofynnol fod yn briodol er mwyn dod i'r casgliad y gellir cyflawni egwyddor y datblygiad, gan adael asesiad manwl ar gyfer cam y cais cynllunio.

12. Mae paragraff 23 y nodyn eglurhad yn datgan y bydd cyflawni'r twf sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun yn hanfodol gysylltiedig â chynnydd sy'n cael ei wneud ar y camau i'w cymryd a'r mesurau a nodwyd ar gyfer gwella'r ACA, a bydd angen dangos rhyngddibyniaeth rhwng cyfraniad at liniaru datblygiadau, a'r camau a'r mesurau hyn. Mae paragraff 24 yn nodi y dylai hyn fod ar ffurf 'cynllun [camau gweithredu lliniaru] dangosol'. Mae paragraff 30 yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn cynlluniau o'r fath.

13. Mae paragraffau 31 a 33 y nodyn eglurhad yn arsylwi y gallai hyfywedd datblygiadau gael eu heffeithio'n ariannol gan fesurau lliniaru, a lle bo modd, dylid amcangyfrif cost debygol y mesurau lliniaru, gyda'r costau hyn yn cael eu hystyried wrth fodelu er mwyn dangos gallu i gyflawni.

### *Mater 1: O ystyried y graddau y mae dyraniadau'r Cynllun yn cael eu heffeithio, a yw'n ymarferol i'r Cyngor lunio cynllun camau gweithredu lliniaru dangosol yn ôl-weithredol?*

14. Yn ein llythyr cychwynnol at y Cyngor, gofynnom am gyflwyno 'cynllun camau gweithredu lliniaru dangosol' i fynd i'r afael â'r diffygion yn y dystiolaeth. Yn wir, mae'r nodyn eglurhad yn atgyfnerthu y dylai CDLl gael eu cefnogi gan gynllun o'r fath sy'n cynnwys y canlynol:

    - Amcangyfrif o'r effeithiau sy'n deillio o gynigion y Cynllun
    - Amcangyfrif o'r gwelliannau sy'n deillio o fesurau presennol a mesurau yn y dyfodol sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi dirywiad yr ACA yn y dyfodol, gan gynnwys y rhai sydd yng nghynigion y Cynllun
    - Sicrhau camau priodol i'w cymryd – wedi'u nodi'n glir ac yn gysylltiedig â mecanwaith cyflawni priodol a cherrig milltir y cytunwyd arnynt, naill ai'n

barhaus, yn y tymor canolig neu'r tymor hwy, ac wedi'u cyflwyno'n raddol o fewn fframwaith rheoli ymaddasol
- Nodi camau lliniaru integredig lle gellir sicrhau hyn a nodi cyfraniadau priodol gan ddatblygwyr, yn rhyngddibynnol ar gamau a mesurau parhaus; a
- Fframwaith monitro clir ar gyfer gweithredu polisïau a chynigion yn gysylltiedig â'r fframwaith rheoli ymaddasol o gamau a mesurau priodol a nodwyd.

15. Mae llawer o'r wybodaeth roeddem yn disgwyl iddi fod yn y cynllun gweithredu hwn wedi'i darparu mewn dogfennau eraill, ond nid yw'r camau y gallai fod angen eu cymryd er mwyn osgoi effeithiau arwyddocaol ar ACA, a'r targedau a'r cerrig milltir cysylltiedig, wedi'u nodi'n glir. Heb yr eglurder hwn, nid oes unrhyw allu i benderfynwyr yn y dyfodol sefydlu a yw cynnydd ar fesurau lliniaru, rheoli a gwella rhyngddibynnol yn ddigonol i ganiatáu i ddatblygiadau newydd gael eu cynnig. Yn lle hynny, byddai angen mabwysiadu dull fesul achos yn seiliedig ar gyngor gan CNC ar gyfer ffosfforws yn ogystal â nitrogen. Yn hyn o beth, yn ein barn ni mae polisi SP 12A arfaethedig y CDLl yn brin o nod y geiriad 'cafeat polisi' a argymhellwyd yn yr 'adroddiad Cam 3' gan DTA Ecology.

16. Mae cyfran sylweddol o'r cyflenwad tai a ddyrannwyd yn y Cynllun yn cael ei heffeithio gan y mater maethynnau. Gofynnwyd i'r Cyngor ddarparu cynllun camau gweithredu lliniaru dangosol ond nid yw wedi gwneud hynny. Bellach, mae dros 6 mis wedi mynd heibio ers cyflwyno'r Cynllun. Byddai rhoi cyfle pellach i'r Cyngor lunio cynllun gweithredu dangosol yn arwain at oedi pellach, yn rhannol gan fod hyn yn debygol o ymwneud â nifer o bartneriaid ac, os cytunir ar dargedau, mae'n bosibl y bydd angen mynd i'r afael ag effeithiau nitrogen, yn ogystal â ffosfforws, fel rhan o 'ddull integredig'.

17. Er mwyn osgoi amheuaeth, ar hyn o bryd, nid ydym yn cwestiynu cadernid y strategaeth ofodol a thwf a ddewiswyd gan y Cyngor. Yn hytrach, rydym yn pryderu bod y dystiolaeth sy'n cefnogi'r strategaeth yn parhau i fod yn brin neu'n aneglur, ac nad yw cyfyngiadau allweddol wedi'u hystyried 'yn eu holl agweddau'. Yn ogystal, gallai fod goblygiadau ehangach i dystiolaeth arall yn y Cynllun oherwydd oedi pellach gyda'r archwiliad, sydd mewn perygl o ddyddio wrth gymryd amser i ddatrys y materion a godir yn y llythyr hwn. Mae hyn oll yng nghyd-destun Cynllun sydd â llai na 10 mlynedd yn weddill ar gyfer cyflawni ei amcanion.

***Mater 2: A oes modd cyflawni dyraniadau o fewn dalgylchoedd ACA sy'n sensitif i faethynnau – ac felly'r Cynllun yn ei gyfanrwydd?***

18. Mae'r nodyn eglurhad yn glir y dylid amcangyfrif costau dangosol ar gyfer mesurau lliniaru priodol a'u hystyried wrth fodelu hyfywedd ariannol. Dylid canmol y Cyngor am ailgysylltu â'i ymgynghorydd hyfywedd i lunio 'atodiad' i'r adroddiad [ED10a] mewn ymateb i'r materion a godwyd yn ein llythyr cychwynnol. Fodd bynnag, mae casgliad yr atodiad yn ddiamwys – mae'n dweud, o ran safleoedd sy'n gollwng i'r ACA morol (yr amcangyfrifwn y dônt i tua 68% o'r unedau a ddyrannwyd), nid oes llawer o 'glustogfa hyfywedd' sy'n gallu cynnwys costau sy'n gysylltiedig â niwtraliaeth maethynnau. Yna, daw i'r casgliad, os yw'r costau cysylltiedig yn sylweddol (yng nghyd-destun gwerthoedd tir), gallai hyfywedd rhai safleoedd, a/neu gyfran y tai fforddiadwy neu fuddion cymunedol eraill a geisir gan y Cynllun, gael eu peryglu.

19. Mae ein pryderon yn hyn o beth yn cael eu hatgyfnerthu gan y cyfaddefiad yn eich ymateb o sylwedd [ED08], "os oes rhaid talu costau ychwanegol sylweddol, pan fydd datrysiad wedi'i sefydlu ar gyfer ymdrin â'r mater hwn, mae'n debygol y bydd yn rhaid adolygu Asesiadau Hyfywedd 2024".

20. Bydd 'Strategaeth Lliniaru NAH Morol ac Aberol – Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr' y Cyngor, sy'n strategaeth ar y cyd, yn sicr o helpu ymgeiswyr i ddylunio mesurau i liniaru effeithiau nitrogen mewn dyfroedd morol ac aberol, ond os yw costau cysylltiedig y mesurau lliniaru hynny'n gwneud datblygiad yn anhyfyw, ni fydd yn cael ei gyflwyno. Yn eich ymateb o sylwedd [ED08] rydych chi'n darparu naratif o gostau datrysiadau lliniaru posibl, gan dynnu ar wybodaeth o fannau eraill, ond nid oes llawer o dystiolaeth bod y lwfans o £1,500 ar gyfer systemau draenio cynaliadwy yn ddigonol.

21. Er ein bod yn derbyn y gellir ystyried lliniaru maethynnau fel cost 'sefydlog' mewn asesiad hyfywedd, mae'n ymddangos i ni, oherwydd absenoldeb cynllun gweithredu dangosol a chostau lefel uchel cysylltiedig ar gyfer lliniaru llwythi nitrogen a ffosfforws, nad yw gwerthoedd tir meincnod yn debygol o adlewyrchu llinell sylfaen realistig. Mae hyn yn ei dro â'r potensial i danseilio asesiadau hyfywedd o amcanion y Cynllun megis targedau a throthwyon tai fforddiadwy, a nodau seilwaith a pholisi eraill, gan gynnwys gofynion lliniaru polisi SP 12A a chyfraniadau a amlinellir ym Mholisi GN 3.

22. Mae paragraff 3.29 yr atodiad ar hyfywedd ariannol yn rhybuddio y gallai perchnogion tir (a datblygwyr i ryw raddau) gymryd safbwynt na fydd safleoedd yn cael eu cynnig yn wirfoddol, neu na ellir eu cynnig, os yw costau sy'n gysylltiedig â chyflawni niwtraliaeth maethynnau, ynghyd â gofynion tai fforddiadwy a/neu seilwaith cymunedol, yn gwneud datblygiadau arfaethedig yn anhyfyw. Rydym yn rhannu'r pryder hwn bod y Cynllun mewn perygl o rwystro'r union ddatblygiadau y mae'n gobeithio ei hwyluso.

***Mater 3: A yw'r mesurau lliniaru yn ddigon 'sicr' neu'n rhesymegol i ddibynnu arnynt yn yr Asesiad Priodol?***

23. Yn achos ACA sy'n sensitif i faethynnau, daw'r Asesiad Priodol i'r casgliad bod angen mesurau lliniaru, rheoli a gwella i wrthbwyso effeithiau fel rhan o ddull integredig. Mae hyn yn cynnwys uwchraddio gweithfeydd trin dŵr gwastraff (ar gyfer ffosfforws), mesurau lliniaru ar y safle, a mesurau ar gyfer dalgylchoedd cyfan.

24. Er bod rhywfaint o ansicrwydd yn dderbyniol, yn wir yn anochel, nid yw'r dystiolaeth yn rhoi llawer o hyder bod modd cyflawni'r mesurau posibl. Mae tablau dalgylchoedd y Cynllun Rheoli Maethynnau (t125-147 yr ARhC) yn rhoi trosolwg defnyddiol o safleoedd yr effeithir arnynt a mesurau lliniaru ffosfforws posibl, ond nid oes llawer i ddangos pa fesurau sy'n cael eu ffafrio, y tebygolrwydd o'u cyflawni (gan gynnwys amcangyfrifon costau lefel uchel) neu a ellid eu cyflawni trwy amod neu rwymedigaeth gynllunio. O ganlyniad, mae'n ymddangos i ni nad yw'r mesurau posibl a allai fod yn ofynnol er mwyn lliniaru effeithiau maethynnau yn hysbys ar hyn o bryd – h.y. maent yn ddyheadol yn hytrach nag wedi'u sicrhau. Cydnabyddir hyn ym mharagraff 5.62 yr ARhC, ac mae'n bryder arbennig, o ystyried y lefel ddisgwyliedig o

gyflawni yn ystod y cyfnod cyflawni graddol o 2026-27 ymlaen a chyfran y safleoedd ag effeithiau nitrogen posibl.

25. Yn unol â'r adroddiadau technegol, mae nodyn eglurhad LlC yn dweud, "dylid cynnwys polisi priodol yn y CDLl sy'n nodi y rhoddir caniatâd cynllunio dim ond lle gellir sicrhau unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol, yn ddelfrydol drwy ddull integredig". Mae'r Asesiad Priodol yn ei gwneud yn glir y bwriedir cyflawni hyn yn bennaf drwy bolisi SP 12A arfaethedig y CDLl. Er y gallai dull o'r fath fod yn dderbyniol mewn egwyddor, mae'r polisi arfaethedig yn benodol i achosion ac yn ddibynnol iawn ar uwchraddio gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn hytrach nag wedi'i gysylltu â cherrig milltir cyflawni mwy strategol sy'n ymwneud ag ystod ehangach o fesurau lliniaru (fel yr hyrwyddir yn y dull 'cafeat polisi' yn yr 'adroddiad Cam 3' gan DTA Ecology); neu, yn achos nitrogen, niwtraliaeth maetholion. Yn ymarferol, o ystyried casgliadau'r 'atodiad' i'r adroddiad ar hyfywedd [ED10a], mae risg sylweddol nad yw polisi SP 12A yn cynrychioli mwy na 'mesur wrth gefn' y byddai angen ei ddefnyddio mor aml fel y byddai'n niweidio cyflawniad y Cynllun, heb unrhyw sicrwydd y byddai'r lwfans hyblygrwydd ar gyfer datblygiadau preswyl yn darparu digon o gwmpas i sicrhau cyflawni amserol. Mae hyn yn ymddangos yn ganlyniad afresymegol ar gyfer mesur lliniaru.

26. Cyfrifoldeb y Cyngor yw ARhC sy'n cefnogi Cynllun. Er hynny, rydym yn pryderu, gan fod yr Asesiad Priodol wedi'i seilio ar fesurau sy'n ddyheadol yn hytrach na 'sicr', ac mae gan yr unig fesur lliniaru penodol (polisi â 'mesur wrth gefn') y potensial i niweidio cyflawniad y Cynllun, nad oes digon o resymeg i gefnogi'r casgliad y gellir diystyru effeithiau arwyddocaol tebygol. Caiff hyn ei ddwysáu gan ddiffyg eglurder neu fanylion ynghylch effeithiau safleoedd datblygu ar nodweddion cymwys o fewn cyrff dŵr i lawr yr afonydd, neu a fyddai effeithiau o'r fath yn mynd y tu hwnt i drothwy *de minimis* yng nghyd-destun yr amcanion cadwraeth perthnasol.

27. Mae ymateb ffurfiol CNC dyddiedig 24 Ebrill 2026 yn cadarnhau ei safbwynt bod darpariaethau'r CDLl yn ddigonol i osgoi effeithiau andwyol ar uniondeb y safle. Fodd bynnag, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth newydd ynghylch hyfywedd ariannol a'r disgwyl gan Polisi Cynllunio Cymru y dylid tybio bod ceisiadau cynllunio sy'n cydymffurfio â pholisïau cynllun datblygu cyfredol yn hyfyw, rydym yn cwestiynu a yw'r ARhC yn gyflawn gan nad oes trafodaeth am randdirymiadau a allai fod yn angenrheidiol o dan Erthygl 6(4) er mwyn sicrhau cyflawni'r Cynllun. Mae'r nodyn eglurhad yn ei gwneud yn glir bod hwn yn gwrs gweithredu cyfreithlon i Gyngor ei gymryd, er fel dewis olaf a fyddai'n gofyn am ystyriaeth ofalus.

### *Cyfarfod archwiliadol*

28. O ystyried arwyddocâd ein pryderon, rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol cynnal cyfarfod archwiliadol i drafod y materion hyn ac archwilio ffordd ymlaen. Cynhelir y cyfarfod archwiliadol yn Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP am **10.00 ddydd Mawrth 16 Mehefin 2026**. Yn ogystal â'r ACLl a LlC, rydym yn gwahodd CNC i'r cyfarfod. Gan mai cyfarfod cyhoeddus yw hwn, gall unrhyw berson ei wylio.

29. Mae Canllawiau Gweithdrefnol Archwiliadau CDLl (2022) gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn rhoi cyngor ar gynnal cyfarfodydd archwiliadol wedi i Arolygwyr fethu datrys problemau tebygol mewn perthynas â chadernid a/neu

gydymffurfiaeth weithdrefnol drwy ohebiaeth ysgrifenedig â'r ACLl. Mae'r canllawiau'n nodi canlyniadau posibl cyfarfod archwiliadol fel a ganlyn:

- Mae'r Arolygwyr yn argymell bod y Cynllun yn cael ei dynnu'n ôl gan yr ACLl, ac nid yw'r argymhelliad hwnnw'n cael ei wrthod gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r materion yn cael eu datrys i fodlonrwydd yr Arolygwyr ac mae'r archwiliad yn symud yn ei flaen.
- Mae'r Arolygwyr yn cytuno i atal yr archwiliad am gyfnod byr er mwyn i'r ACLl wneud mwy o waith.
- Mae'r materion yn parhau heb eu datrys tan y gwrandawiadau, ac mae'r Arolygwyr yn ailystyried y mater bryd hynny.

30. Rydym yn agored i archwilio pob opsiwn yn y cyfarfod.

31. Bwriedir y bydd y tri mater a nodwyd uchod yn y nodyn hwn yw llywio trafodaethau yn y cyfarfod. Nodir cwestiynau penodol fel a ganlyn i ysgogi'r drafodaeth.

- Pa waith ychwanegol fyddai angen i'r Cyngor ei wneud, y mae'n realistig y gallai ei gyflawni, i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd (gan ystyried unrhyw ddiwygiadau canlyniadol)? Am faint o amser byddai angen atal dros dro? A fyddai goblygiadau ar gyfer tystiolaeth arall yn y Cynllun? Faint o gyfnod y Cynllun fyddai'n weddill adeg y cam mabwysiadu posibl?
- Beth yw'r goblygiadau posibl pe bai'r Cynllun yn cael ei dynnu'n ôl, o ran cyflawni datblygiadau i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd, ac ar yr ACA dan sylw? A fyddai tynnu'r Cynllun yn ôl yn arwain at oedi sylweddol o ran sicrhau ailgyflwyno Cynllun diwygiedig?

32. Dylai'r ACLl ystyried yr opsiynau a'r cwestiynau hyn cyn y cyfarfod. Nid ydym yn gwahodd datganiadau ysgrifenedig gan unrhyw barti cyn y cyfarfod.

33. Wedi'r cyfarfod, byddwn yn adrodd yn ysgrifenedig ar gamau gweithredu a argymhellwn, ar ôl clywed ac ystyried barn y partïon a wahoddwyd.

Ian Stevens a Paul Selby
08.05.26